# Grantiau



## Paratoi ar gyfer cyllid

Cyn dechrau ymgeisio am gyllid, mae'n bwysig edrych ar eich mudiad o safbwynt rhywun o'r tu allan a gofyn rhai cwestiynau syml i chi'ch hun ynghylch y ffordd y caiff eich mudiad ei redeg.

Mae angen gwneud hyn oherwydd mae cyllidwyr angen gwybod y gallant ymddiried ynoch gyda'u harian, a bod eich prosiect yn debygol o lwyddo.

Y prif gwestiynau y bydd gan gyllidwr ddiddordeb ynddyn nhw yw'r rhain:

- A ydych chi'n fudiad sy'n cael ei reoli'n dda?
- A ydych chi'n rheoli eich arian yn dda?
- A yw eich holl ddogfennau llywodraethu'n gyfredol?
- A yw'r holl bolisïau priodol yn eu lle?

### Addas ar gyfer cyllido

Mae ein taflen wybodaeth, 'Addas ar gyfer cyllido' yn eich tywys drwy'r meysydd y bydd angen i chi eu hystyried.

Gallwch chi gael rhagor o wybodaeth i'ch helpu chi gyda'r meysydd hyn yn ein hadrannau ar Ymddiriedolwyr a Llywodraethiant, Rheoli arian a chyllidebau a Rhedeg eich mudiad.

Mae cyngor ynghylch bod yn addas ar gyfer cyllido ar gael i fudiadau gwirfoddol drwy'r rhwydwaith o gynghorau gwirfoddol lleol (CVCs).

# Ble i ddod o hyd i gyllid grant?



w

n chi

bori drwy’r platfform am gyfleoedd cyllido i’ch gr p gwirfoddol, sy’n rhestru cannoedd o gyfleoedd cyllid grant a benthyciadau o ffynonellau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. O grantiau bach i brosiectau cyfalaf mawr, gallwn ni eich helpu i ddod o hyd i’r cyllid sydd ei angen arnoch.

CYLLIDO CYMRU

# Ysgrifennu eich cais

Cyn i chi ddechrau eich cais, gwnewch yn si r eich bod yn gwneud eich ymchwil, ac yn bendant y bydd eich prosiect yn bodloni meini prawf cymhwysedd y cyllidwr. Edrychwch eto dros feini prawf y gronfa, hyd yn oed os ydych chi wedi cyflwyno cais iddyn nhw o’r blaen, oherwydd gall meini prawf newid.

Peidiwch ag edrych ar y pethau y maen nhw’n eu cyllido yn unig; gwiriwch y pethau nad ydynt yn gymwys – er enghraifft, efallai nad ydynt yn cyllido elusennau cofrestredig, neu’n gwrthod cyllido gwaith cyfalaf, neu efallai eu bod yn gwrthod cyllido rhai gweithgareddau penodol fel ymgyrchu.

Hefyd, gwiriwch y dyddiad cau a sicrhewch eich bod yn cyflwyno cais o fewn yr amser hwn.

Dyma rai awgrymiadau da ar gyfer cwblhau’r cais:

- Dilynwch y cyfarwyddiadau, darllenwch unrhyw wybodaeth ganllaw, ac yna darllenwch bopeth eto. Amlygwch y prif dermau a’r hyn y mae’r cyllidwyr eisiau ei gefnogi
- Rhowch sylw i’r holl bwyntiau y gofynnir amdanynt mewn unrhyw gwestiwn. Peidiwch â chael eich temtio i ysgrifennu llawer yn y rhannau hawdd eu hateb a lliwio ffeithiau pan fydd y pwnc yn anoddach. Os ydyn nhw wedi gofyn y cwestiwn, maen nhw wedi gwneud hyn am eu bod eisiau gwybod yr ateb

- Mae ymatebion sydd wedi'u strwythuro'n wael yn anodd eu hasesu. Cadwch bethau'n syml; weithiau, mae'n helpu i ddechrau drwy roi eich ateb mewn pwyntiau bwled ac yna ymhelaethu ar bob un i roi ychydig mwy o wybodaeth a ffeithiau. Sicrhewch fod eich ymatebion yn parhau i ganolbwyntio ar ganlyniadau'r prosiect a'r anghenion rydych chi'n gobeithio eu diwallu. Os yw'r cwestiwn wedi'i rannu'n bwyntiau bwled, ymatebwch i bob pwynt bwled gyda pharagraff/pwynt newydd
- Sicrhewch nad ydych chi'n defnyddio jargon ac acronymau. Mae angen i'r cais fod yn ddealladwy i rywun heb wybodaeth flaenorol am eich gwaith
- Rhowch sylw i ramadeg, atalnodi a sillafu. Gofynnwch i drydydd parti ddarllen eich cais cyn i chi ei anfon. Bydd pâr newydd o lygaid hefyd yn eich helpu i wneud yn si r bod eich cais yn gwneud synnwyr ac nad ydych chi wedi ailadrodd eich hun heb angen
- Hyrwyddwch eich pwyntiau gwerthu unigryw a'ch arloesedd. Meddyliwch am yr hyn sy'n gwneud eich prosiect chi'n wahanol i brosiectau tebyg – a yw'r dull gweithredu'n newydd, a ydych chi wedi cael canlyniadau ardderchog yn y gorffennol, a oes angen neu frys difrifol? Pam mai chi yw'r mudiad iawn, a hwn yw'r prosiect iawn, i gyflawni'r canlyniadau rydych chi neu'r cyllidwr wedi mynd ati i'w cyflawni?
- Peidiwch ag ysgrifennu ffurflen gais â llaw oni bai ei fod yn gwbl ddiosgoi. Cysylltwch â'r cyllidwr os oes angen cymorth ffisegol arnoch i allu defnyddio'r ffurflen neu'r system ymgeisio

# Cynnwys eich cais

Bydd yr hyn y bydd cyllidwyr yn gofyn amdano i gefnogi'ch cais yn amrywio o un gyllidwr i'r llall, ond gallwch chi ddisgwyl i'ch cais gynnwys adrannau sy'n ymdrin â'r canlynol:

**Teitl**

A allwch chi feddwl am deitl prosiect bachog sy'n cyfleu'r hyn rydych chi eisiau ei wneud?

**Crynodeb o'r prosiect**

Dyma'r peth olaf y dylech chi ei ysgrifennu. Mae angen iddo gyfathrebu prif bwyntiau eich prosiect, a dangos sut mae'n gweddu â blaenoriaethau'r cyllidwr.

**Datganiad o broblemau**

Mae angen i chi egluro'r problemau rydych chi'n ceisio mynd i'r afael â nhw.

- Siaradwch am bobl – dangoswch eich bod yn cael eich arwain gan angen
- Gwnewch y broblem yn soled ac nid yn haniaethol; amlinellwch yr effeithiau drwg, ond yn nhermau bob dydd. Ceisiwch nodi'r broblem ac yna gofyn 'wel, beth am hynny?' er mwyn treiddio'n ddyfnach i'r effeithiau hirdymor
- Nodwch y brys, yr achos dros ymyrryd ar unwaith
- Dangoswch fod modd datrys y broblem
- Rhowch dystiolaeth i gefnogi'r hyn rydych chi'n ei ddweud. Un ffordd o wneud hyn yw drwy ddefnyddio ystadegau, ond mae ffyrdd eraill – beth am astudiaethau achos, neu ddyfyniadau gan gyn-gleientiaid?

**Rhaglen a dulliau**

Beth ydych chi'n mynd i'w wneud, a sut ydych chi'n mynd i'w wneud? Ar ôl diffinio'r broblem, mae angen i chi egluro sut rydych chi'n bwriadu gwneud gwahaniaeth.

- Beth yw eich amcanion – a allwch chi nodi canlyniadau penodol, mesuradwy? Byddwch yn benodol wrth ddisgrifio'r bobl rydych chi'n eu helpu, maint y gwasanaeth, a'r effaith a ddisgwylir: beth yw'r newid rydych chi'n ceisio ei greu?
- Pa weithgareddau byddwch chi'n eu gwneud i gyflawni'r amcanion? A allwch chi gyfiawnhau eich dull gweithredu? A allwch chi ddangos y bydd eich gweithgareddau yn mynd i'r afael â'r broblem rydych chi wedi'i nodi?

**Gwerthuso**

Sut byddwch chi'n gwybod eich bod wedi llwyddo? Beth fyddwch chi'n ei fesur neu'n ei gofnodi? Sut byddwch chi'n canfod a yw'r gwasanaeth wedi gwneud gwahaniaeth?

**Cyllideb**

Efallai y bydd angen i chi atodi dadansoddiad manwl o'r costau, ond hyd yn oed os mai dim ond amlinelliad syml y bydd angen i chi ei ddarparu, dylech wybod y manylion er mwyn gwneud yn si r y bydd yr arian rydych chi'n gwneud cais amdano yn ddigon i dalu am y costau gwirioneddol o gyflawni'r prosiect. Os ydych chi'n gwneud cais am grant dros nifer o flynyddoedd, yna dangoswch y costau ar gyfer pob blwyddyn a chofiwch gyfrifo chwyddiant. Os na fyddwch chi'n cynnwys cynyddiadau chwyddiannol, bydd eich cyllid yn werth llai erbyn diwedd eich prosiect, ac efallai y bydd angen i chi ddod o hyd i gyllid ychwanegol i dalu am eich costau. Mae gan rai cyllidwyr ffyrdd penodol o ymdrin â hyn. Defnyddiwch adennill costau llawn bob amser, oni bai bod y cyllidwr yn nodi'n benodol na fydd yn cyllido hyn.

Adennill costau llawn yw dull o gyllidebu prosiectau neu wasanaethau sy'n caniatáu i fudiadau adennill yr holl gostau sy'n gysylltiedig â chyflenwi prosiect neu wasanaeth. Mae hyn yn golygu y byddwch chi'n ystyried cyfran o gost y cymorth cyffredinol y bydd ei angen gan y mudiad i gyflawni'r prosiect.

Gallwch chi ddyrannu costau cymorth i gyllideb prosiect mewn gwahanol ffyrdd a cheir rhagor o wybodaeth am sut i fynd ati i wneud hyn yn ein taflen wybodaeth Adennill Costau Llawn.

**Cynllun cyllido**

Os nad ydych chi'n gofyn am y swm llawn, yna mae angen i chi ddangos o ble rydych chi'n bwriadu cael gweddill yr arian. Os yw'r prosiect yn un parhaus, mae angen i chi egluro o ble rydych chi'n bwriadu dod o hyd i gyllid ar ôl y cyfnod cychwynnol. Fel arall, bydd disgwyliadau cyllidwyr yn cynyddu am strategaeth ymadael strwythuredig sydd wedi'i datblygu'n llawn.

**Cais a rhesymeg**

Peidiwch ag ofni gofyn am swm penodol – gwnewch yn si r ei fod yn rhesymol o'i gymharu â'r hyn rydych chi'n ei wybod o ganllawiau'r ymddiriedolaeth neu grantiau eraill.

Gall eich CVC lleol hefyd ddarparu cymorth gydag ysgrifennu ceisiadau am gyllid.



### Planning and writing a successful funding application

Mae gennym gwrs e-ddysgu am ddim, 'Cynllunio ac ysgrifennu cais llwyddiannus am gyllid', a fydd yn eich helpu i lunio cais cyllido cryfach ac yn cyflwyno adnoddau y gallwch chi eu defnyddio i gefnogi'r broses cynllunio prosiect.

# Ar ôl y penderfyniad cyllido

**Os caiff eich cais ei wrthod**

Mae'r cyfraddau llwyddo ar gyfer ceisiadau grant yn isel a bydd angen i chi fod yn barod am benderfyniadau siomedig. . Os bydd eich cais yn cael ei wrthod:

- o Gofynnwch am adborth ac os cewch chi ef, darllenwch ef yn drwyadl (yn anffodus, nid oes gan bob cyllidwr y capasiti i ddarparu hyn). Edrychwch eto ar eich cais yn sgil sylwadau'r cyllidwr a meddyliwch am sut gallwch chi gryfhau'r cais ar gyfer y dyfodol. Gallech chi gysylltu â'ch CVC lleol a chael eu help nhw i wella eich cais.
- Gwiriwch eich gwaith ymchwil a meini prawf cymhwysedd y cyllidwr. A wnaethoch chi golli rheswm pam na allai'r cyllid hwn fod yn iawn i chi? A oeddech chi'n anlwcus bod yna geisiadau eraill yr oedd y cyllidwr yn eu ffafrio?
- Os oeddech chi'n meddwl bod y cyllid yn ffitio'n dda â'ch anghenion, edrychwch ar eu rheolau ynghylch pa mor hir sydd angen i chi aros cyn ymgeisio eto. Efallai y byddwch chi'n gallu ymgeisio ar unwaith, ond bydd y mwyafrif o gyllidwyr yn gofyn i chi aros am gyfnod cyn ailymgeisio.

- Cofiwch fod llawer o ffactorau a allai beri i'ch cais gael ei wrthod, gan gynnwys faint o geisiadau a dderbyniwyd yn y cylch cyllido penodol hwnnw, faint o arian oedd ar gael, pa brosiectau tebyg allai fod yn cael eu cyllido yn rhywle arall a faint o geisiadau a dderbyniwyd o'ch ardal chi. Dysgwch o'r profiad ac ystyriwch y pethau hyn pan fyddwch chi'n gwneud eich cais nesaf.

**Os yw eich cais yn llwyddiannus**

Os yw eich cais yn llwyddiannus, yna gallwch chi weithio ar gyflawni'ch prosiect a meithrin cydberthynas â'r cyllidwr. Dyma rai awgrymiadau i'ch helpu i reoli'r gydberthynas gyllido honno:

- Gwiriwch yr amodau ar eich cadarnhad o grant a rhowch bopeth y mae'r cyllidwr yn gofyn amdano iddo cyn gynted â phosibl.
- Gwiriwch yr wybodaeth ynghylch sut mae'r cyllidwr eisiau i chi gydnabod ei grant (mewn cyhoeddusrwydd ac ati). Gwnewch yn si r bod pawb sy'n gysylltiedig â'r prosiect yn gwybod beth sydd angen, a gwiriwch fod y gofynion yn cael eu dilyn.
- Gwiriwch erbyn pryd y mae'r cyllidwr eisiau adroddiadau neu wybodaeth gennych chi a lluniwch gynllun i gadw at y dyddiadau cau hynny. Hyd yn oed os na fydd y cyllidwr yn gofyn am adroddiadau, dylech fonitro eich cynnydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau eich bod yn cyrraedd targedau allweddol y prosiect, ac ewch ati i adolygu eich perfformiad yn fuan ar ôl i'r prosiect ddod i ben fel eich bod yn dysgu o'r profiad.
- Dylai'r cyllidwr roi manylion cyswllt yr unigolyn a fydd yn rheoli eich grant yn ei fudiad i chi. Gwnewch yn si r eich bod yn anfon eich holl gyfathrebiadau at yr unigolyn hwn ac yn ceisio meithrin cydberthynas bositif ag ef.
- Dylech chi gyfathrebu â'ch cyllidwr pryd bynnag y bo angen. Nid yw hyn yn ymwneud â chadw at ddyddiadau cau yn unig; dylech chi hefyd roi gwybod i'ch cyllidwr am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau neu broblemau sy'n codi gyda'r prosiect fel y gallwch chi gytuno ar sut i fynd i'r afael â'r rhain gyda'ch gilydd. Mae'r cyllidwyr eisiau i chi lwyddo, a byddant yn eich cynorthwyo â hyn ym mha bynnag fodd y gallant.
- Cofiwch am ofynion monitro a gwerthuso. Bydd angen i chi ddangos bod eich prosiect wedi cyflawni ei nodau ac amcanion, felly mae'n rhaid i chi sicrhau bod gennych chi drefniadau monitro yn eu lle ar ddechrau'r prosiect fel na fyddwch chi'n hepgor unrhyw wybodaeth a thystiolaeth sydd angen eu casglu.